

08/10/21

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Diolch yn fawr i'r rheiny ohonoch chi a fynychodd y cyfarfod i rieni BL.11 yn ddiweddar. Mae recordiad o'r cyfarfod yn 'Team BL.11' eich plentyn.

Hoffwn eich atgoffa o ddyddiadau allweddol a gwybodaeth bwysig am arholiadau fydd yn digwydd ym mis Tachwedd i ddisgyblion Blwyddyn 11.

	Dyddiadau'r arholiad	Sesiynau adolygu
Rhifedd	Uned 1: Dydd Mawrth, 2.11.21 Uned 2: Dydd Iau, 4.11.21	Nos Fawrth: Grŵp dysgu Miss A Jenkins Nos Fercher: Grwpiau dysgu Mrs C Shanklin, Mr N Jones a Mr R Havard Nos Iau: Grwpiau dysgu Mrs C Shanklin a Mr N Jones Bydd pob sesiwn yn gorffen am 16.10.
Cymraeg	Uned 2: Dydd Gwener, 5.11.21 Uned 3: Dydd Mawrth, 9.11.21	Nos Fawrth, nos Fercher a nos Iau tan 16.15 yn Cymraeg 6 (<i>gall disgyblion DDEWIS un o'r sesiynau – does dim angen mynychu bob un</i>) Sesiwn adolygu rhithiol ar gael ar TEAMS 'Blwyddyn 11' bob nos Fawrth (manyllion yn y 'Team BL.11')

Negeseuon ychwanegol gan yr Adran Fathemateg:

Dewiswyd y disgyblion a fydd yn sefyll yr arholiadau Rhifedd yn dilyn sawl asesiad a thrafodaeth ddwys ynglŷn â gofynion y cwrs, gyda'r ethos o les y plentyn yn gryf yn ein penderfyniad. Bydd pob disgybl sy'n sefyll yr arholiad yn ymwybodol o hyn gyda'r nifer helaeth ohonynt yn nosbarthiadau Miss A Jenkins, Mrs C Shanklin, Mr N Jones a Mr R Havard. Mae'r disgyblion sydd yn sefyll yr arholiad yn derbyn o leiaf un cyn bapur yn wythnosol er mwyn ymarfer y math o gwestiynau fydd yn codi ar y papurau Rhifedd. Bydd athro/awes eich plentyn yn targedu mathau arbennig o gwestiynau ar sail yr adborth o'r cyn bapurau. Gofynnwn yn garedig bod eich plentyn gyda'r offer priodol ar gyfer yr arholiadau, h.y. offer ysgrifennu, pren mesur, onglydd a chwmpawd.


Negeseuon ychwanegol gan yr Adran Gymraeg:

Y bwriad ydy bod pawb ym Mlwyddyn 11 yn sefyll yr arholiadau Cymraeg (Uned 2 ac Uned 3). Os nad ydy'ch plentyn yn sefyll yr arholiad, bydd Miss M Jones yn cysylltu gyda chi i drafod y sefyllfa ymhellach.

Os ydych am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Shanklin (Pennaeth Mathemateg)

ShanklinC@hwmail.net a Miss Jones (Pennaeth y Gymraeg) JonesM1550@hwmail.net neu drwy ffonio'r ysgol ar 01792 560600.

Yn ddifuant,



Mrs Rhian Edwards-Jones (Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Head)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL** | Aur





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

